
AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 243  Awst - Medi 2023

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



Blwyddyn Newydd Dda! Fel erioed, gyda rhifyn Awst-Medi y *Gwyliedydd*, mae'r Eglwys Fethodistaidd yn symud i'n blwyddyn gyfundebol nesaf, felly mae'n bleser cael cyfle i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi. Lle mae'r amser wedi mynd? Dydy hi ddim yn teimlo fel blwyddyn ers rhifyn Awst-Medi 2022. Eto, mae cymaint wedi digwydd. Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol am y tro cyntaf ers y pandemig, yn Nhregaron yr haf diwethaf, a gwasanaeth o ddiolchgarwch am fywyd Synod Cymru a'r taleithiau Cymraeg a'i rhagflaenodd; mis Medi diwethaf, croesawyd y Parchedig Ddr Ian Morris fel Arolygydd Cylchdaith Cymru, a sefydlwyd Synod newydd yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru mewn cyfarfod yn y Drenewydd ym mhresenoldeb y Parchedig Jonathan Hustler, Ysgrifennydd y Gynhadledd Fethodistaidd.

Trwy'r flwyddyn hon bu'n bosib cynnal rhaglen holl gyfarfodydd ein capeli a gwahanol gymdeithasau unwaith eto wedi i holl gyfyngiadau Covid ddod i ben. Penodwyd Prif Weithredwr newydd i Cytûn Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, sef y Parchedig Siôn Brynach, a bydd Eisteddfod Genedlaethol unwaith eto ym Moduan. Wedyn, ar ôl ffarwelio â'r Parchedig Ddr Stephen Wigley fel Cadeirydd ein Synod, byddwn yn croesawu'r Parchedig Andrew Charlesworth, fydd yn Gadeirydd newydd ar y cyd â minnau, mewn gwasanaeth yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, Caerdydd am 2.30yp ar ddydd Sadwrn 2 Medi. Bydd Ysgrifennydd y Gynhadledd yn pregethu, a chroeso cynnes i bawb, nid yn unig i Andrew!

Er y bydd hwn yn ddigwyddiad arbennig iawn wrth gwrs, i mi un o'r pethau mwyaf arwyddocaol a ddigwyddodd ym mywyd yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru yn ystod y flwyddyn diwethaf yw rhywbeth llawer mwy tawel, a drefnwyd gan ein Rhwydwaith Dysgu. Am un awr, unwaith bob chwarter blwyddyn, mae nifer bach o bobl wedi bod yn cyfarfod ar-lein i ganolbwyntio ar wrando. Estynnwyd gwahoddiad i ymuno yn y sesiynau trwy gylchlythyr electronig y Rhwydwaith, ymhlith llefydd eraill. Mae'n swnio'n od, efallai – cyfarfod ynglŷn â gwrando – ond rydym yn byw mewn byd lle mae yna ddiffyg gwrando. Mae'r byd mor swnllyd ac mae llawer ohonom ni yn methu cael gwrandawiad, yn arbennig pan fyddwn dan straen a phwysau. Yn sicr, dydym ni ddim yn gwrando digon ar Dduw, ac mae'r sesiynau bach yma yn cynnig cyfle i siarad am ein profiad o wrando ac i ymarfer ein cyhyrau gwrando (fel petai) wrth i ni geisio gwrando ar ein gilydd a gwrando ar Dduw. Fel rydw i'n gweld pethau, sut rydym ni'n mynd i wybod beth mae Duw eisiau gennym os nad ydym yn gwrando ar Dduw, yn y tawelwch, yn ein calonnau, yn y Beibl, yn yr eglwys a'r byd ac wrth i ni wrando ar ein gilydd? Weithiau, mae gen i ddelwedd feddyliol, yn fy mhen, o Dduw yn ceisio cyfathrebu â ni, a ninnau'n rhy swnllyd a phrysur i glywed. Os ydym ni am glywed, mae'n rhaid i ni aros a gwrando – "Stopiwch yn enw Duw", os liciwch chi, yn hytrach nag "yn enw'r gyfraith", fel yn yr hen ffilmiau 'cops and robbers'!

Mae gwrando ar Dduw yn rhan bwysig o weddïo. Tueddwn i feddwl am weddïo fel siarad wrth Dduw – sy'n wir, wrth gwrs, ac yn sicr, mae Duw yn dyheu am glywed ein gweddïau. Eto, rwy'n credu bod Duw yn dyheu am i ni glywed hefyd a sylweddoli beth mae Duw eisiau ei ddweud wrthym. Efallai ei fod yn swnio'n beryglus: wedi'r cwbl, mae rhai wedi dweud iddynt glywed llais Duw gyda chanlyniadau oedd yn bell o fod yn iach a chadarnhaol. Mae fy meddwl yn mynd yn ôl at eiriau doeth fy Nghadeirydd cyntaf: "God is, and he is as we see him in Jesus." Bywyd ac athrawiaeth Iesu yw'r llinyn mesur wrth inni ystyried beth mae Duw yn ei ddweud wrthym ni heddiw.

Hyd yn oed os na allwch ymuno â'r Grŵp Gwrando ar-lein, a gaf i awgrymu ein bod ni i gyd yn ystyried cymryd mwy o amser i geisio gwrando ar Dduw pan fyddwn yn gweddïo yn ystod y misoedd i ddod? Mae'n golygu cadw'n ddistaw a ffocysu ein meddwl a'n calon ar Dduw. Teimlaf yn gryf ein bod ni'n cyrraedd croesffordd ym mywyd yr eglwys, a'n cymdeithas hefyd, ac rwy'n credu yn fy nghalon y byddai oedi a gwrando am air Duw i ni yn ein hoes bresennol yn agor y ffordd i ni yn unol ag ewyllys Duw, gan ein hannog a'n calonogi ar ein taith. Sut beth yw ewyllys Duw? Popeth a welwn yn Iesu, sy'n ewyllysio iachâd a lles i ni, cyfiawnder a heddwch, ein hiachawdwriaeth a dyfodiad teyrnas Dduw ar y ddaear megis yn y nef. "Yn y dechreuad yr oedd y Gair" (Ioan 1:1), y Gair creadigol wrth galon y bydysawd. Os gallwn glywed y Gair hwnnw, byddwn yn gwybod mai gair cariad ydyw. Boed i chi ei glywed.







# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN CYMRAEG YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877
– Cyfres Newydd 1987

**RHIF 243**
**AWST - MEDI 2023**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"

***SYLWER AR Y NEWID YN ENW'R CYFRIF, OS GWELWCH YN DDA***

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
8 MEDI 2023

Llun y clawr: Afon Braint gan Rhian Morris

Dyluniwyd gan Ffrwd Cyfyngedig
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa




# Diolch

**Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.**

| | |
|---|---|
| Dienw | £50-00 |
| Mrs Helen Wyn Williams, Rachub | £20-00 |
| Dienw | £10-00 |
| Mr John Howard a Mrs Gwenno Hughes, Caernarfon | £10-00 |
| Mrs M G Thomas, Penmachno | £15-00 |
| Cyfanswm | £105-00 |

# Gweithredu Dros Blant

Mae pethau wedi bod yn ddistaw yn ddiweddar ac nid oes dim rhoddion wedi ein cyrraedd ers rhifyn diwethaf y Gwyliedydd.

Ar Gorffennaf 9fed fe gynhaliwyd Sul Gweithredu dros Blant ac mae'n bosib parhau i gael copi o'r gwasanaeth drwy fynd ar:
https://media.actionforchildren.org.uk/documents/Worship_Booklet_Welsh_May_2023.pdf

**Rhaghysbysiad**: Bwriedir lawnsio ein hymgyrch i gasglu anrhegion Nadolig ym mis Medi. Edrychwch allan am y taflenni.

Gan ddiolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth. Marc a Margaret
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden,
Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
☎ 01978 756717
cwrteden@gmail.com

## Darlith Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru

Mae Pwyllgor y Gymdeithas Hanes yn edrych ymlaen at eich croesawu i'r ddarlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
Dydd Iau 10fed o Awst
4 o'r gloch, Pabell y Cymdeithasau 1
Testun: **Bywyd a Gwaith y Parchedig Griffith Thomas Roberts, ysgolhaig a gweinidog Wesleaidd**.
Darlithydd: Y Parchedig Aled Edwards, cyn Brif Weithredwr Cytûn.



***Simultaneous translation facilities will be provided at this event organised by the Historical Society of the Methodist Church in Wales. Rev Aled Edwards, former Chief Executive of Cytûn, will speak about Rev Griffith Thomas Roberts, Methodist minister and scholar. All welcome.***

# Cwm Cynllwyd



*gan Menna Medi*

Mewn ardal wledig fel Cwm Cynllwyd yn y 1960au a'r 70au, roedd y bwrlwm cymdeithasol yn troi o gwmpas y capel bach. Roedd yn bedair milltir bell iawn i gyrraedd pentref Llanuwchllyn ac roedd y Bala 9 milltir i ffwrdd. Felly, diolch am gorlan grefyddol a diwylliannol ar stepen drws.

Mae'n hysbys fod y diwygiwr crefyddol Howell Harris (1714 – 1773) wedi aros yng Nghynllwyd wrth ymweld â'r ardal. Dywedir hefyd mai yn Weirglodd Gilfach wrth droed Aran Benllyn y cynhaliwyd y cyfarfod Ymneilltuol cyntaf, a ddatblygodd i fod yn Eglwys Annibynnol. Ond yn Nhy'n Fedw y cynhaliwyd Ysgol Sul gyntaf y fro. Ym mis Medi 1823 adeiladwyd Soar, capel cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd, a hynny ar dir Talardd. Eleni felly rydym yn dathlu dwy ganrif o gynnal yr Achos yn y capel hwn.

Er bod fy nhad a mam yn flaenoriaid a thrysoryddion y capel, wnaethon nhw erioed orfodi crefydd arnom. A ninnau'n wyth o blant yn ein teulu ni, mynychu'r capel gyda'n gilydd oedd yn bwysig, nid yn gymaint yr ochor grefyddol. Efo teuluoedd mawr bryd hynny, roedd digon o blant a phobol ifanc i lenwi'r seddau. Erbyn hyn, tua 30 o aelodau sydd yno er mai llond dwrn sy'n mynychu'n gyson, gan fod nifer o'r aelodau yn byw'n bell. Yn anffodus, mae cludiant a cheir yn rhy gyfleus y dyddiau yma, a'r pentref bellach wedi dod yn nes, felly daeth yr Ysgol Sul i ben.

Mi ges i fy medyddio gan y Parch. Gerallt Jones oedd yn weinidog yr Annibynwyr yn yr ofalaeth. Mi ges fy nerbyn gan y Parch. Hugh Hughes. Y gweinidogion eraill yn ystod fy oes i oedd y Parchedigion W.J. Edwards, Dafydd Rees Roberts a Paul Anthony Roberts, ac mae Carwyn Siddall bellach yn weinidog bro brwdfrydig iawn.

Does gen i fawr o gof o weithgaredd yr Ysgol Sul heblaw am ddarllen llyfr am yr oen bach du a'r oen bach gwyn, a dameg adeiladu tŷ ar y graig. Cofiaf nad oeddwn yn rhy awyddus i drafod pynciau yn agored ar ôl mynd i ddosbarth yr oedolion gan strancio ddim isio mynd yno a chloi fy hun yn y llofft! Ond roeddwn wrth fy modd pan ddeuai'n amser y Cyfarfod Bach cystadleuol. Bu'n gyfle i nifer feithrin unrhyw dalent oedd ganddynt, a châi pawb gyfle i gydganu efo'i gilydd os nad oeddynt yn ddigon hyderus i berfformio'n unigol. Yno y ces i gyfle i gystadlu ar limrig neu linell goll, stori neu bortread. Roeddwn hefyd yn ymgeisio ar y gân ysgafn, gan drio codi hwyl ac enwi rhai o bobol ein Cwm oedd wedi cael troeon trwstan yn ddiweddar – ac nid pawb oedd yn gallu cymryd jôc chwaith! Roedd fy nhad yn arwain y cyfarfodydd weithie, ac er nad oeddem yn deulu cerddorol, roedd nifer ohonom mewn wythawd neu bedwarawd, parti neu gôr. Dyletswydd Mam pan ddeuai ei thro hi oedd gwneud bwyd i'r beirniaid ar yr aelwyd ar ddiwedd y cyfarfod.

Bob Nadolig, mae arferiad o gynnal noson o ganu carolau yn y capel. Hyd at ryw ugain mlynedd yn ôl, byddai nifer ohonom ni'r aelodau (gan fenthyg ambell faswr o'r pentre) yn mynd i ganu carolau o gwmpas y cwm a'r pentre, a byddai hyn yn ffordd dda o godi arian i'r capel. Mae cynnal y coffrau wedi bod yn her dros y blynyddoedd. Cynhaliwyd taith gerdded yn 1986 dros Fwlch Sirddyn ac yn ôl dros Fwlch y Groes, a buom yn cynhyrchu cardiau Nadolig yn nyddiau cwmni Webb Ivory – cofiaf sgwennu cerddi i'w cynnwys ynddynt.

Cynhaliwyd pedair priodas a nifer o fedyddiadau yn y capel. Pan gynhaliwyd y briodas gyntaf yno, doedd neb wedi sylweddoli ei fod wedi ei gofrestru. Sais a merch o Hawaii oedd y ddau – bu Richard Law yn dod i aros i Gaban y Cwm am flynyddoedd ac roedd yn hoff o'r capel bach. Cafodd yr organydd Meirion Edwards a'r aelod Fflur Jones gyfle i berfformio ynddi, ac roeddwn innau'n cyflwyno rhaglen ar gyfer Radio Cymru i nodi'r achlysur.

Roedd yna gapel arall yn y cwm yn ystod fy mhlentyndod sef Seion neu Gapel Ucha gan yr Annibynwyr. Rhyw ganllath o ducha'r capel arall oedd hwn, a byddem yn mynd yno bob yn ail i gyfarfodydd gweddi neu bregeth. Ar ddechrau'r 1990au, efo'r adeilad hwnnw a'r tŷ capel yn furddun, prynwyd y safle gan ein teulu ni, a bu'n gartref cysurus i Carys fy chwaer a Mam tan ei cholli hi fis Medi'r llynedd. Mae'r pren bocs oedd y tu allan i ddrws ffrynt y capel bellach yn gysgod i gwt yr ieir!

**I ddathlu'r dau canmlwyddiant bydd taith gerdded a barbeciw ar Fedi'r 2il, cynhelir Cymanfa'r Dathlu ar Fedi'r 17eg (a ffilmir gan DCDC). Ar ddydd Sul Medi 24 ceir Oedfa yn y capel o dan arweiniad y gweinidog, bydd Cyngerdd Mawreddog ar Fedi'r 29ain efo enwogion y fro, a bydd arddangosfa yn y capel bach rhwng 1 – 3 bob dydd Mercher a Sadwrn drwy fis Medi.**

**Felly, dewch atom ni i ddathlu – bydd y croeso gan drigolion Cwm Cynllwyd yn gynnes iawn!**





# Braint

*gan Dr Huw Tegid Roberts*

Tybed sawl un ohonoch chi fu dros un o'r ddwy bont i Ynys Môn yn ddiweddar? Os bu i chi deithio rywfaint draw oddi wrth y Fenai tua chanol yr ynys, mae'n bur debyg eich bod chi wedi croesi afon Braint, a hynny o bosibl heb sylweddoli eich bod yn gwneud. O'i chymharu â rhai o afonydd enwog Cymru – Tywi, Hafren, Dyfrdwy, Gwy, ac ati – afon gymharol gul a di-nod ydi hi ar y cyfan. Mae hi'n afon sy'n ymestyn ar draws rhan helaeth o dde Ynys Môn, gan darddu yn Llyn Llwydiarth mewn coedwig gerllaw Pentraeth.


O edrych ar fap, hawdd fyddai maddau i rywun am feddwl bod dŵr afon Braint yn gweithio'n llawer rhy galed i gyrraedd y môr, ac y buasai wedi bod yn llawer haws i'r dŵr hwnnw lifo i'r cyfeiriad arall, am ychydig llai na milltir i lawr i Draeth Coch yn nwyrain Ynys Môn. Ond dilyn llwybr tua'r gorllewin mae'r afon – o Bentraeth, yn ei blaen heibio pentrefi tawel Penygarnedd a Rhoscefn-hir, dan y ffordd yn Sarn Fraint ger Penmynydd, gan ddyfrio tiroedd ym mhlwyfi Llanfairpwll, Llanidan a Llanfair yn y Cwmwd, cyn pasio'r cerrig camu enwog tu draw i Ddwyran (gweler llun clawr y rhifyn hwn) ac anelu am y môr – taith o tua deuddeg milltir, yn reit siŵr. Yn wir, mor hir y daith fel bod rhywfaint o ddŵr afon Braint yn troi i'r chwith yn Llanfairpwll, ac yn dilyn trywydd gwahanol i'r prif lif, ac allan i'r Fenai heibio Pwllfanogl, cartref yr arlunydd enwog Kyffin Williams. Yn hynny o beth, mae hi'n afon nodedig – prin ydi'r rhai sydd â dau aber.

Mae'n hynod sut mae rhai afonydd yn ymlwybro'n araf a thawel am filltiroedd maith, gan ddisgyn yn araf bach i lefel y môr ar hyd y daith. Bydd hynt afonydd eraill yn fyrrach, ac o bosibl yn fwy byrlymus, wrth iddynt ddisgyn yn sydyn drwy geunentydd a ffurfio ambell raeadr. Bydd rhai hyd yn oed yn newid eu henwau ar hyd y ffordd – fe'm magwyd i dafliad carreg o afon Rhythallt ym mhentref Penisa'rwaun yn Eryri, ond mae'r un gronynnau dŵr a ddechreuodd eu taith yn Llanberis yn cael eu galw'n afon Seiont erbyn cyrraedd Caernarfon.

Mae bywyd yn aml yn debyg i afonydd – rhai'n llawn bwrlwm, eraill yn dawelach eu natur. Rhai ar ras i ddilyn llwybr byr, ac eraill yn dewis mynd am dro hirach a mwy pwyllog. Daw newid mawr yn natur rhai yn ystod y daith. Bydd sawl rhwystr i'w goresgyn ar hyd y ffordd, ac weithiau bydd pethau'n llifo'n dda. Dro arall, prin y bydd digon o 'wmff' i fwrw ymlaen â'r daith, nes daw cawodydd bendithiol i wthio pethau ymlaen.

Braint yn wir ydi sylweddoli bod taith pob afon, fel bywyd pob unigolyn, yn unigryw – yn gymhleth, ambell waith yn cymryd tro annisgwyl yma ac acw, a bod i bob un ddechrau a diwedd digon tebyg i'w gilydd. A chyn cloi, y mae'n werth cofio hefyd bod y gallu i wneud daioni a gwneud llanast ym meddiant pob un, dan amgylchiadau penodol.





## Llythyr at y Golygyddion

Pentrecelyn
Gorffennaf 2023

Annwyl Olygyddion
Hoffwn dynnu sylw at erthygl *Parhau i gloddio am aur* gan Prydwen Elfed-Owens yn eich rhifyn diwethaf, lle gofynnir a ydym yn rhoi cyfle i'r ifanc arwain yn ein capeli. Fel y gwyddom mae prinder pobl ifanc yn ein capeli ond heb amheuaeth buasem yn mynd yr ail filltir i roi cyfle iddynt fod yn arweinyddion.

Bûm i yn ffodus iawn yn hen Gylchdaith Rhuthun yn ystod y saithdegau o gael cyfle, cefnogaeth a chymorth gan Arolygwyr arbennig ac aelodau teyrngar y capeli er mwyn fy mharatoi i fod yn Bregethwr Lleyg ac Arweinydd – a byddaf yn fythol ddiolchgar iddynt.

Mae Prydwen yn tynnu sylw yn ei herthygl at waith tri arweinydd sydd yn meithrin yr ifanc i fod yn arweinyddion. Wrth gwrs rhaid cofio hefyd fod amryw o fewn ein capeli yn gweithio'n dawel (fel burum mewn bara) ac efallai nad ydym yn clywed amdanynt ond mae eu cyfraniadau yn amhrisiadwy a llawn cyn bwysiced ag unrhyw un. Mae angen inni werthfawrogi eu hymdrechion hwythau hefyd.

Rhaid cofio yn ogystal fod Ardaloedd yn trio eu gorau glas mewn cyfnod heriol iawn a chanmil diolch iddynt i gyd.

Pob bendith i chi i gyd.

Yn gywir
Elizabeth Jones
(Ardal Bathafarn)

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## *Bethel, Rhiwbeina*

**BORE COFFI**
Cynhaliwyd Bore Coffi ar Orffennaf 12fed a chasglwyd dros £400 ar gyfer y Banc Bwyd. Yn ystod y bore cawsom adloniant gan y gantores Siân Francis sydd hefyd yn aelod o'r capel. Rydym yn ddiolchgar iawn i Siân am rannu ei thalentau yn rhad ac am ddim er budd yr elusen. Diolch i bawb a weithiodd mor galed er mwyn cynnal bore hwylus oedd yn gyfle i gwrdd â ffrindiau yn ogystal â chodi arian.

**PATAGONIA**
Rydym yn dymuno'n dda i Llinos Howells sydd ar fin cychwyn ar ei thaith i Batagonia lle bydd yn gweithio fel athrawes Gymraeg am gyfnod.

**MIS MEDI**
Ni chynhelir gwasanaethau yn y capel ym mis Awst ond byddwn yn cwrdd eto ar ddydd Sul Medi'r 3ydd.
**GOHEBYDD .** GWENDA FRANCIS

## *Ebeneser, Dolgellau*

**OFFRWM DIOLCHGARWCH**
Ers rhai blynyddoedd bellach rydym wedi bod yn rhoi arian y Casgliad Diolchgarwch i dair elusen – un yn lleol, un yn genedlaethol ac un yn rhyngwladol. Mewn cyfarfod ym mis Ebrill, penderfynwyd gwneud yr un fath eto eleni a'r tair elusen a ddewiswyd y tro hwn oedd Banc Bwyd Dolgellau a'r Bermo, Ambiwlans Awyr Cymru ac All We Can sef mudiad sydd ynghlwm â'r Eglwys Fethodistaidd ac sy'n rhoi cymorth i gymunedau tlotaf y byd.

**PROFEDIGAETH**
Bu farw Pat Gill, un o drigolion y dref a chymeriad arbennig, yn frawychus o sydyn ar fore Sul y Pasg. Er mai aelod selog o'r Eglwys yng Nghymru oedd Pat, roedd yn mwynhau beth roedd hi'n ei alw'n 'church hopping', gan gyd-addoli ag enwadau eraill. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf roedd wedi ein mabwysiadu ni yma ac yn Ebeneser y cynhaliwyd ei Gwasanaeth Coffa. Roedd yn amlwg ei bod yn fawr ei pharch oherwydd daeth llawer o ffrindiau i roi diolch a dathlu ei bywyd. Roedd Pat yn aelod o sawl mudiad a chymdeithas leol, gan gynnwys Agor y Llyfr.

**INDERJIT BHOGAL**
Ar fore Sul yr 21ain o Fai arweiniwyd ein gwasanaeth gan y Parchedig Inderjit Bhogal. Mae ef a'i wraig Cathy yn byw yn Sheffield ac Inderjit yw un o gyn-Lywyddion y Gynhadledd Fethodistaidd. Mae'n weithiwr cyson dros heddwch a chyfiawnder ac fe dderbyniodd yr anrhydedd o gael Gwobr Heddwch y Byd gan yr Eglwys Fethodistaidd Fyd-eang ryw dair blynedd yn ôl. Ef a sefydlodd y Mudiad Noddfa (Sanctuary). Llawenhawn fod Cymru yn Genedl Noddfa. Yn dilyn yr oedfa aethom i'r Clwb Rygbi unwaith eto i fwynhau cinio gyda'n gilydd ac roedd Inderjit wrth ei fodd yn symud o fwrdd i fwrdd er mwyn cynnal sgwrs â ni i gyd.

**GARDD Y CAPEL**
Mae gardd y capel yn edrych yn hardd eto eleni. Mae Mr Hugh Humphreys wedi bod yn tyfu ac yn plannu'r blodau ers nifer fawr o flynyddoedd a mawr yw ein diolch iddo am hyn. Diolch hefyd i Gwyn a Dai am eu holl waith yn cadw'r ardd yn daclus. Rydym fel aelodau, yn ogystal â'r cyhoedd, yn cael pleser mawr o'u llafur.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## *Pendref, Dinbych*



**FFAIR WANWYN**
Am y tro cyntaf ar ôl Covid cynhaliwyd ein Ffair Wanwyn ar Fai 20fed yng Nghanolfan Eirianfa, drws nesaf i'r capel. Bu'n fore llwyddiannus gydag elw o dros £450. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a diolch hefyd i gyfeillion y capel a fu'n helpu ar y diwrnod.

**GWASANAETHAU**
Yn ystod Mai a Mehefin cynhaliwyd gwasanaethau bendithiol dan ofal yr Hybarch Bernard Thomas, y Parchedigion Marc Morgan a Jennie Hurd a'r Fs Enid Mair Davies. Diolch iddynt am eu gwasanaeth. Ar y ddau Sul pan nad oedd pregethwr ar gael cynhaliwyd Cyfarfodydd Gweddi dan ofal Hywel Evans, Elfed Evans, Heulwen Ellis a Bethan Roberts – mawr yw ein diolch iddynt hwythau. Diolch i'r blaenoriaid Hywel Evans a Heulwen Ellis am eu gwaith ac i Vera Savage am gyfeilio a Gwyn Williams am arwain y canu. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at yr aelodau hynny sydd ar hyn o bryd, am wahanol resymau, yn methu â mynychu'r oedfaon.

**GŴYL DINBYCH**
Fel rhan o weithgareddau Gŵyl Ganol Haf Dinbych, agorwyd drysau Pendref ynghyd â chapeli Lôn Swan a'r Capel Mawr, tri chapel hynaf Dinbych ac sydd o ddiddordeb hanesyddol mawr, bnawn dydd Mercher yr 21ain o Fehefin. Er y tywydd poeth daeth 17 i weld y capel rhwng 3 a 6 o'r gloch. Diolch i Ceri Ellis, Eryl Davies a Medwyn Jones a rannodd y gwaith o gyfarch yr ymwelwyr.

**AELOD NEWYDD**
Dydd Sul Mai 28ain dan arweiniad ein gweinidog cawsom y pleser o groesawu aelod newydd i'n plith sef Mr Eryl Davies. Bu Eryl yn mynychu ein gwasanaethau ers rhai misoedd bellach a braf ei gael yn aelod yma ym Mhendref.

**CANU MAWL**
Ar Fehefin 23ain aeth nifer ohonom i oedfa o Ganu Mawl ym Methel Prestatyn. Cafwyd oedfa fendithiol a hwyliog yn canu o'r Detholiad dan arweiniad Geraint ac Angela Roberts. Mwynhawyd paned wedi ei threfnu gan aelodau Bethel ar derfyn yr oedfa.

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Dydd Sul Mai 14eg cynhaliwyd oedfa undebol Cymorth Cristnogol Dinbych yng nghapel Lôn Swan dan arweiniad Arwel Roberts, Rhuddlan. Cymerwyd rhan gan gynrychiolwyr Capel Lôn Swan, Capel Mawr ac Eglwys Unedig y Fron a'r Brwcws gyda Hywel Evans yn cynrychioli capel Pendref.
**GOHEBYDD .** MARY JONES



## *Ardal Bathafarn*

**GWASANAETHAU**
Daeth cynulliad da i Eglwys Sant Pedr i oedfa Cymorth Cristnogol o dan ofal y Tad Huw Bryant, yntau yn gymeriad carismataidd. Roedd ei gyflwyniad yn arbennig iawn, yn fyrlymus a chyfoes. Braf gweld y plant yn cymryd rhan mor naturiol a llawn egni. Diolch i ffrindiau'r capeli a'r eglwysi a gymerodd ran. Lucy oedd yn cynrychioli Bathafarn. Diolch hefyd i gyfeillion Sant Pedr am baratoi paned a chyfle inni gymdeithasu.

Cawsom gyfle pellach i gefnogi Cymorth Cristnogol mewn bore coffi yn y capel Presbyteraidd Saesneg ac unwaith eto roedd awyrgylch cartrefol.

Yn ystod mis Mehefin bu Elizabeth a Gwenda Prestatyn yn cynnal oedfaon yn ystafell gyfforddus Llys Awelon, gyda phaned ar y terfyn i gymdeithasu. Roedd yn braf iawn cael cwmni rhai o drigolion Llys Awelon. Oedfaon bendithiol iawn.

Diolch hefyd i Rhodri a Rhian am eu gwaith yn llywyddu a chyfeilio ym Mathafarn. Bu Elizabeth yn cynnal Gwasanaeth y Cymun yng Nglyndyfrdwy ac Elved oedd y llywydd. Diolch i bawb yn yr Ardal am eu ffyddlondeb a'u gweithgarwch, a werthfawrogir yn fawr iawn, a chofion at bawb sy'n methu mynychu oedfaon oherwydd gwahanol amgylchiadau.

**PROFEDIGAETH**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Mary a Dilwyn Jones yn eu profedigaeth sydyn o golli nai, ac at Iolo a Beryl Evans ar golli nith yn annisgwyl iawn. Yr un yw ein cydymdeimlad ag Audrey, sydd wedi colli perthynas sef Betty Parry, Pentrecelyn. Meddyliwn amdanoch i gyd fel teuluoedd yn eich profedigaethau.

**GWELLHAD BUAN**
Da deall fod Enid Edwards, Glyndyfrdwy, wedi dod adref ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau hefyd i'w phriod Hywel sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd, ac i Susan a Siân o Wyddelwern sydd wedi wynebu triniaethau. Gwellhad buan hefyd i Beryl Evans, Bathafarn, a gafodd anffawd yn ddiweddar a thorri ei braich, ac i Ynyr, mab Rhian a Rhodri.

**LLWYDDIANT**
Llongyfarchiadau calonnog iawn i Mali, wyres Meta Beech, ar ennill gradd dosbarth cyntaf o Brifysgol Lerpwl. Pob dymuniad da iddi ar gyfer y dyfodol.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## Dymuniadau Gorau

Dymunwn yn dda i Gwyn Williams a'r teulu oll. Mae Gwyn wedi dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau ar enedigaeth gor-ŵyr bach arall sef Nedw, mab i Siôn a Gwenno. Pob dymuniad da i Siôn yn ei swydd newydd yn Ysgol y Felinheli. Dy golli, Siôn, o Ddyffryn Clwyd, ond pob hapusrwydd i chi i gyd.





## *Shiloh Newydd, Tregarth*

**GWASANAETHAU**
Fel aelodau hoffem ddiolch i'r canlynol am arwain oedfaon yn ystod yr wythnosau diwethaf. Diolch i'r Parchedigion Ian Morris, Alun Morton Thomas, Jennie Hurd, Philip Barnett, R.O. Jones, Hugh Pritchard, Euron Hughes a Nerys Griffiths ac i Mrs Ellie Jones. Cawsom hefyd Drefniant Lleol gyda rhai o'r aelodau yn cyfrannu. Mae'r oedfaon syml hyn yn fendithiol iawn. Diolch i chi i gyd.





**DRWS AGORED**
Mor braf ydi cael cwmni pawb sy'n galw draw i Shiloh ar fore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch. Mae rhai sydd yn hen ffrindiau erbyn hyn ac eraill yn dod ar eu taith gerdded neu ar feic ar hyd Lôn Las Ogwen. Croeso cynnes iawn i bawb am gwmni, paned a sgwrs.

Hyfryd oedd croesawu dau a deithiodd ymhell iawn atom yn ddiweddar, yn wir o wahanol gyfandiroedd! Daeth Gwydion Temple Morris, cyn-aelod o'r Ysgol Sul, atom o Ganada. Byddai ef a Llŷr ei frawd bob amser yn barod i wneud eu rhan yn ardderchog yn y Gwasanaethau Teulu. Arferent fyw yn Hen Dyrpeg, Tregarth, ond wedi i Gwydion orffen yn yr Ysgol Gynradd leol aeth yr hogiau a'u rhieni Siân a Martin i fyw yn Halifax, Nova Scotia. Mae Gwydion bellach yn gweithio ym myd y ffilmiau a Llŷr yn ddiffoddwr tân mewn rhan arall o'r wlad, yn y coedwigoedd mawr. Braf iawn oedd gweld Gwydion unwaith eto ac yntau yn ôl yng Nghymru am ychydig wythnosau. Roedd yn hynod braf hefyd cael croesawu Paul Roberts o Seland Newydd i'r Drws Agored ym mis Mehefin. Roedd Paul gartref am gyfnod i weld ei dad, sef Wynne Roberts, un o flaenoriaid Shiloh Newydd, sydd wedi cartrefu erbyn hyn yng Nghartref Gofal Cerrig yr Afon, Y Felinheli. Anfonwn ein cofion fel aelodau at Wynne a dymunwn y gorau i Paul pan fydd yn dychwelyd i Auckland. Diolch i'r ddau am alw draw.

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

# Codi To Newydd



***gan Arwel Williams***

Pethau od ydi garejis, neu yn hytrach y defnydd a wneir ohonynt. Rwy'n cyfeirio yma at y rhai hynny a adeiladwyd wrth ymyl tai neu sydd ynghlwm iddynt, ac nid y rhai y byddwn yn mynd â'n ceir atynt pan fydd arnyn nhw angen sylw.

Er iddynt gael eu codi er mwyn cadw'r car, mae llawer erbyn hyn wedi troi yn rhyw fath o storfa i gadw pob math o drugareddau, ac felly mae hi acw hefyd. Lle i gadw pob math o geriach, sef y pethau rydym yn gyndyn o gael gwared ohonynt "jyst rhag ofn" neu y pethau hynny a berthyn i'r gorffennol na allwn ollwng gafael ynddynt am resymau sentimental.

Ar ddiwrnod glawog ychydig dros flwyddyn yn ôl, fe sylwais fod dŵr yn gollwng drwy do'r garej acw. Rhyw dwll bach nad oedd i'w weld yn rhy ddrwg, a phenderfynais y byddwn yn gallu ei sortio fy hunan.

Er imi dderbyn cyngor gan gymydog nad oedd diben clytio to fflat, gan mai oes gymharol fer sydd iddynt, ac y byddai'n well cael to cyfan gwbl newydd, anwybyddu'r cyngor hwnnw wnes i, a mynd ati i drwsio'r rhwyg, ac ar fy ngwir, mi wnes joban reit dda ohoni gan sortio'r broblem – wel, dros dro beth bynnag. Pan ddaeth cawodydd trwm y gaeaf fe sylwais fod darnau eraill o'r to yn gollwng hefyd, a gwyddwn, bryd hynny, fod fy nghymydog yn llygad ei le, ac mai to newydd oedd yr unig ateb.

Gwyddwn nad oeddwn yn gymwys i godi to cyfan gwbl newydd fy hunan, ac felly rhoddais y gwaith yn nwylo adeiladwr proffesiynol, ac fe gododd yntau do newydd gyda nwyddau cyfredol a dibynadwy.

Y wers yn fan hyn i mi, oedd ei bod yn bwysig ar adegau ein bod yn rhoi ein balchder heibio a derbyn na allwn gyflawni popeth a ddymunwn, bod llawer o bethau tu hwnt i'n gallu. Felly hefyd gyda'r dirywiad mewn crefydd sydd yn loes calon i lawer ohonom. Mae'n gyfnod o stormydd arnom ni – yn wir dywedodd rhywun na fu crefydd erioed allan yn y fath storm. Ninnau wedyn yn rhyw geisio clytio ein trefniadaeth yma ac acw.

Onid oes rhaid i ninnau sylweddoli bod rhai tasgau y tu hwnt i'n gallu a bod gofyn ymddiried y gwaith i Un llawer mwy na ni? Er mwyn iddo yntau, drwy ddirgel ffyrdd, godi to newydd, o feibion a merched all drosglwyddo Efengyl Iesu Grist mewn ffordd berthnasol i'r oes sydd ohoni. Wedi'r cyfan yn hanesyddol, onid yr ifanc sydd wedi bod ar flaen y gad ym mhob diwygiad boed grefyddol neu seciwlar?

Nid awgrym sydd yma i ni'r rhai hŷn laesu dwylo na digalonni, ond i ni sylweddoli ein cyfyngiadau ac ymddiried mwy yn yr Adeiladwr Mawr i gyflawni fel mae wedi gwneud ar hyd yr oesoedd.

Gyda llaw, wedi i mi glirio'r garej mae lle i'r car bellach, ond hefyd mae lle o hyd i ddal gafael ar y pethau gwerthfawr hynny a berthyn i'r gorffennol.

**"Mae gweithwyr gorau'r ne'**
**Yn marw yn eu gwaith,**
**Ond eraill ddaw'n eu lle**
**Ar hyd yr oesoedd maith;**
**A ffyddlon i'w addewid fry**
**Yw'r hwn a fu'n sylfaenu'r tŷ".**
Elfed



# Canfod Aur

***gan Prydwen Elfed-Owens***

### NID YN OFER

Mae fy ngŵr, sydd bron yn 96 oed ac a fu yn ôl a blaen ar wely angau am wythnosau, yn fyw ac yn mwynhau bywyd. Nid yn ofer y bu'r erfyn. Mae bellach wedi ymgartrefu mewn cartref newydd deniadol.

Rwy'n holi fy hun ar brydiau, a fu'n werth yr holl ymdrech gan fod dementia arno beth bynnag? Sut fywyd sydd ganddo o'i flaen – a beth am ansawdd fy mywyd innau o ran hynny? Rhaid cyfaddef i'r cwestiynau hyn groesi fy meddwl droeon pan fu'r nos yn ddu **ond** ym mêr fy esgyrn gwyddwn nad yn ofer y bu i Tomos Elfed fyw. Mae yma bwrpas.

Mae ei ddydd yn rhedeg fel wats o amser brecwast nes gweinir te prynhawn ardderchog yn y cartref. Ond gyda'r machlud daw terfysg y *Sundown Syndrome* i'w ddrysu'n ddidostur a'i yrru i'm ffonio o hyd ac o hyd gan ofyn am gysur.

Yn feunosol byddwn yn dilyn rwtîn tynn a phenodol iawn am oddeutu pedair awr gan yfed paned, bwyta bisged, paratoi i fynd i'r gwely a gosod dillad glân allan ar gyfer y bore, yn y drefn gywir. Clwydo a chydganu Iesu Tirion, adrodd gweddïau Ysgol Sul 1932 a chydadrodd y Fendith. Arhosaf nes iddo gysgu.

Fel y gŵyr pawb sy'n gyfarwydd ag aflwydd dementia, mae cymeriad pobl yn gallu newid yn llwyr ac mae'n straen aruthrol ar anwyliaid. Ar adegau felly, cofiaf weddi fy mam.







### GWEDDI MAM

Rwy'n falch rŵan, Arglwydd, imi gyflawni'r ddyletswydd anodd a osodaist arnaf.
Rwy'n cyfaddef imi gasáu ei gweithredu ar y pryd: maddau fy amharodrwydd.
Wrth gwrs, dyma oedd y ddyletswydd gywir: gwyddwn hynny'n iawn.
A phetawn i wedi ei hosgoi, byddwn wedi teimlo'n gondemniedig.
Ond ni freuddwydiwn y byddai cyflawni'r dasg yn fodd imi greu cyfeillion newydd
ac i agor y drws i ddiddordebau ehangach a chyfleoedd er lles.
Roedd hyn oll wedi'i guddio er fy mwyn, a gallwn fod wedi ei golli.
Dyna yw dy ddull O Dduw!
Roedd f'amharodrwydd yn druenus ac annheyrngar,
a theimlaf yn annigonol hyd yn oed wrth ddiolch i Ti am y bendithion anhaeddiannol.
Ond, rwy'n ostyngedig, ddiolchgar, a gobeithiaf brofi hynny
drwy fy ufudd-dod parod a hapus o hyn ymlaen.
Gweddïaf y caf gennyt y gras angenrheidiol i wireddu'r ddyletswydd anodd yma.

### YSBRYDOLIAETH NEWYDD


Ychydig a feddyliais y byddai ysbrydoliaeth newydd yn dod yn yr amgylchiadau presennol – a hynny, o bob man, ar goridor y cartref gofal newydd. Yma deuthum wyneb yn wyneb â thri aelod o staff cynorthwyol dros dro. Eu henwau yw Shadrach, Esther a Daniel ac maent yn dod o Nigeria. O sylwi ar eu henwau Beiblaidd, holais eu hanes a chael ar ddeall mai Cristnogion ydynt. 'Rydym yn moli Duw wrth ofalu am bobl,' meddent. 'Mae gwasanaethu Duw fel hyn yn dod â llawenydd inni.'

Deallais fod y tri yn addoli bob dydd Sul, ynghyd â theuluoedd eraill, ym Mangor. Yn wir, roedd croeso i bawb ymuno â nhw. A dyna lle y bu i'r Falwan Bach **ganfod aur**: ymysg y gynulleidfa hon oedd yn dathlu cariad Duw. Sôn am ddathlu! Bu'n bleser ymuno â nhw yn yr Ysgol Sul. Roedd pob un ohonynt yn smart, y merched yn eu gwisgoedd traddodiadol cyflawn a'r plant yn ddigon o sioe! Buom yn addoli mewn stafell fenthyg yn un o adeiladau'r Brifysgol. Rhoddwyd i mi gopi o'r Maes Llafur yn amlinellu eu pwrpas gan gynnwys:

- *Ysbrydoli awch mewn unigolion a theuluoedd i adnabod Duw a newid eu bywydau*
- *Helpu pobl i weld y cyswllt sydd rhwng y Gair a'u bywyd beunyddiol*
- *Datblygu arweinwyr ac athrawon newydd.*

Sôn am groeso, hefyd! Ni oedd y rhai 'gwyn' cyntaf i ymuno â nhw yn eu haddoliad ond buan iawn yr oeddem yn rhan o'r canu, y gweddïo a'r dawnsio. Er y gwahaniaethau lliw, cefndir, gwlad a magwraeth, roedd gennym lawer yn gyffredin oherwydd natur ein ffydd. Mae Duw yn llond pob lle. Digwyddodd rhywbeth arbennig iawn i ni y bore hwnnw. Fel y dywedodd arweinydd yr addoliad, *'God bless you real good'*.





# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Bethel, Prestatyn

**NEGESEUON O'R PULPUD**
Daeth y Parchedig Nesta Davies o Abergele atom gyda chyflwyniad bywiog am y Pentecost. Diolch iddi am ei hegni a'i brwdfrydedd. Y Pentecost oedd testun ein bugail hefyd, y Parchedig Brian Huw Jones, ac fel arfer roedd ganddo stori ddifyr i'r plant a fynnodd eu sylw. Cawsom bregeth afaelgar gan y Parchedig Dilys Jones o'r Amwythig ar y testun o Efengyl Mathew: "Athro, pa beth da a wnaf i gael bywyd tragwyddol?". A'r ateb: "Os mynni fod yn berffaith, dos, gwerth dy eiddo a dyro i'r tlodion, a chei drysor yn y nefoedd; a thyrd, canlyn fi."

**PANED A SGWRS**
Mae Paned a Sgwrs bob bore Mercher yn boblogaidd iawn – cyfle i gyfarfod ffrindiau, yfed coffi a rhoi'r byd yn ei le. Diolch i bawb sy'n cymryd eu tro i baratoi'r lluniaeth. Edrychwn ymlaen at ein cinio allan i ddathlu diwedd y Tymor.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion at ein holl aelodau sydd yn methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd.

**Y GYMANFA GANU GYDENWADOL**
Roedd yn hyfryd croesawu'r Gymanfa i Fethel eleni wrth inni ailgychwyn y traddodiad yn dilyn y cyfnodau clo. Diolch i Angela a Geraint am wneud y trefniadau. Daeth cynulleidfa dda i ganu mewn pedwar llais. Cawsom ganu da gan y plant hefyd i gyfeiliant eu hofferynnau taro. Yn dilyn y gymanfa cafodd pawb gyfle i gymdeithasu dros goffi – yn yr Ysgoldy, y Cyntedd a'r Capel – a mwynhaodd yr ieuenctid fod allan yn yr awyr iach.








**CYDYMDEIMLO**
Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Swan a holl deulu'r diweddar Malcolm Simpson. Roedd ei dair merch a'i fab yn mynychu'r Ysgol Sul pan oeddent yn blant ac erbyn hyn maent yn magu teuluoedd eu hunain ac wedi dod yn ôl i'r Capel. Cynhaliwyd angladd Malcolm ym Methel dan arweiniad y Parchedig Brian Huw Jones. Roedd yn wasanaeth hyfryd gyda'i blant Angela, Karen, James a Jenny yn talu teyrnged iddo. Diolch i Alaw am ganu unawd yn y gwasanaeth gydag Alys, Beth a Flora sef wyres Malcolm yn ymuno yn y gytgan. Diolch arbennig i'r teulu am addurno'r capel â blodau hyfryd a dyfwyd yng ngardd Malcolm, er cof am eu tad.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES





### Tabernacl, Llanfyllin

**OEDFA CYMORTH CRISTNOGOL**
Y Parchedig Gwyndaf Richards oedd yn arwain oedfa Cymorth Cristnogol eleni. Anfonwyd casgliad (a rhoddion o £200) tuag at yr achos teilwng hwn.

**OEDFA WAHANOL**
Rydym bob amser yn falch o groesawu Mr Huw Ellis i gynnal gwasanaeth yn y Tabernacl. Mae Huw yn un o'r tîm sydd yn perthyn i grŵp IMPACT, sef Cristnogion sydd yn mynd o gwmpas ysgolion yn y Sir yn cynnal gwasanaethau Cristnogol cyfoes. Y tro hwn, roedd wedi gosod gwahanol weithgareddau a chorneli tawel yn y festri. Pwrpas hyn oedd dangos i ni rai o'r pethau y mae ef a'i gydweithiwr yn eu gwneud gyda'r plant. Roedd cornel dawel a chornel weddi a nifer o weithgareddau yma a thraw i wneud i'r plant feddwl am sefyllfaoedd ar hyd a lled y byd. Rhoddwyd yr offrwm i dîm IMPACT er mwyn cefnogi'r tîm hwn sydd yn gweithio mewn modd cyfoes, diddorol a bywiog i gyflwyno'r Efengyl i blant yr ardal.

**CYDYMDEIMLO**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs Gwyneth Lewis, gweddw'r Parchedig Iwan Lewis, a fu'n weinidog yn y Tabernacl am flynyddoedd. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei phlant, Huw a Ruth a'u teuluoedd ac at y teulu cyfan.
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

### Salem, Rhyd y Foel

**LLWYDDIANT**
Roedd Cadi Mai Pegg yn aelod o ensemble offerynnol i flynyddoedd 7, 8 a 9 a ddaeth yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri. Bu Mari Grug Owen yn aelod o barti canu a fu yn cystadlu hefyd. Profiad arbennig iddynt.

**OEDFA DEULUOL**
Fore Sul Mai 28ain cawsom oedfa deuluol o dan ofal Catherine, gyda'r mamau a'u plant yn cymryd rhan. Thema'r gwasanaeth oedd *Synhwyrau*. Gwnaeth pawb ei ran yn wych ac ystyriol. Diolch i Catherine am ei harweiniad bendithiol. Terfynwyd y gwasanaeth yn ôl yr arfer yn ein hoedfa deuluol drwy i'r plant a'r gynulleidfa gydganu "Pwy wnaeth y sêr uwchben". Erbyn hyn mae'r oedolion yn dechrau dod yn fwy hyderus gyda'r symudiadau!

**COFION**
Anfonwn ein cofion at ein haelodau sydd yn gaeth i'w cartrefi ar hyn o bryd ac yn methu mynychu'r oedfaon fel y dymunent.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## Y Gynhadledd

Cynrychiolwyr Synod Cymru Wales yn y Gynhadledd Fethodistaidd yn Birmingham yr haf hwn.



### Ebeneser, Treuddyn

**DERBYN AELOD NEWYDD**
Yn ystod ein gwasanaeth nos Sul, Mehefin 4ydd derbyniwyd Mrs Alaw Smith yn aelod. Yng ngofal y gwasanaeth yr oedd ein gweinidog, y Parchg Eirlys Gruffydd Evans ac fe gyflwynwyd copi o'r llyfr Salmau Cân Newydd i Alaw i nodi'r achlysur. Yn gynharach eleni fe wnaeth Alaw ail ddechrau Ysgol Sul yn Ebeneser, dan yr enw Clwb Ebeneser. Hi sy'n trefnu a chymryd gofal o'r sesiynau ac maent yn cyfarfod ar y Sul cyntaf bob mis rhwng 10 ac11 y bore. Braf yw cael dweud ein bod wedi gweld cynnydd yn y nifer sy'n mynychu'r Clwb. Rydym yn ddiolchgar iawn i Alaw am yr holl waith y mae'n ei wneud.

**TE PRYNHAWN**
Byddwn yn cynnal Te Prynhawn yng Nghanolfan Hafan Deg ar ddydd Sadwrn, Medi 9fed er budd y capel. Hefyd, bydd nifer o wahanol stondinau o gwmpas y stafell a gobeithiwn y daw nifer dda i'n cefnogi.

**CYFARFOD PREGETHU**
Cynhelir ein Cyfarfod Pregethu ar nos Sul, Medi 10fed pan fydd y Parchg Brian Evans yng ngofal y gwasanaeth. Estynnir croeso cynnes i bawb.

**Y GYMDEITHAS**
Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas ar nos Fawrth, Mehefin 13eg. Dyma'r tro cyntaf i ni gyfarfod ers cyfnod Covid. Cawsom noson hwyliog iawn yng nghwmni'r Parchg Eirlys Gruffydd Evans, a oedd wedi dod â nifer o wahanol daclau gyda hi a ninnau'n ceisio gweithio allan beth oeddynt.

**DATHLU**
Cynhaliwyd cyfarfod llwyddiannus iawn ar Fehefin 18fed pan oeddem yn dathlu 200 mlynedd ers sefydlu'r hen Gapel a 150 mlynedd ers adeiladu'r capel presennol. Daeth nifer dda i'r oedfa a oedd dan ofal y Parchg Eirlys Gruffydd Evans. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn yn dilyn y gwasanaeth gyda chyfle i bawb sgwrsio a hel atgofion.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion gorau at y rhai sydd ddim yn gallu dod i'r gwasanaethau ar hyn o bryd a dymunwn wellhad buan iddynt.
**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

# Ei di ddim yn bell yn deud celwydd!

gan **Glyn Tomos**

'Mi fyddi di yn siŵr o gael dy ddal am ddeud clwydda.'

Faint ohonoch chi fel fi sydd wedi clywed y geiriau hyn pan oeddan ni yn blant? Mae hynny wedi dod yn wir i rai oedolion adnabyddus yn ddiweddar. Nid unrhyw oedolyn ychwaith. Yn hytrach dau gyn-arweinydd grymus o bob ochr i'r Iwerydd oedd yn gwadu hyd yr eithaf nad oeddent wedi dweud celwydd ond sydd bellach wedi cael eu profi yn euog o hynny. Hyd yn oed wedyn mae'r ddau, fel ambell weinidog arall yn y Senedd yn Llundain, yn dal i ddadlau eu gorau glas eu bod yn ddieuog o ddweud celwydd ac mai cynllwyn yn eu herbyn yw y cyfan.

Wrth gwrs y tebyg yw nad oes diwrnod yn mynd heibio heb fod celwyddau yn cael eu dweud gan hwn a'r llall ond pan fydd hyn yn digwydd ar frig dwy o Lywodraethau mwyaf pwerus y byd yna mae'r cyfan yn destun pryder go iawn. Ar ôl dweud hynny mae'n dda gallu dweud bod cyfundrefnau'r ddwy Lywodraeth wedi dwyn yr arweinyddion hyn i gyfrif neu fel arall parhau yn ddi-ben-draw fyddai'r celwyddau a'u dylanwad yn bellgyrhaeddol.

Dwn i ddim amdanoch chi ond mae rhywun wedi teimlo ers peth amser bellach bod cryn ddirywiad yn ymddygiad pobl yn gyffredinol mewn perthynas â'i gilydd. Mae unigolion fel petaent yn colli rheolaeth lwyr ar eu hymddygiad a'r sefyllfa yn troi yn fudr mewn eiliadau. Yn hytrach na cheisio rhesymu, mae pobl yn arthio ar ei gilydd fel petai hynny yn mynd i wella'r sefyllfa. Yn aml mae hyn yn digwydd yn gyhoeddus sydd yn gwneud i rywun feddwl beth sydd yn digwydd tu ôl i ddrysau caeedig.

Beth bynnag fo'r amgylchiadau mae'n bwysig bob amser fod yr awdurdodau perthnasol yn dangos arweiniad a'r esiampl orau i bawb o sut y dylid ymddwyn a bod yn gwrtais ac yn barchus yn eu hymwneud ag eraill. Mae'r misoedd diwethaf o streiciau ymysg ein gweithwyr cyhoeddus wedi dangos pa mor gyndyn yw Llywodraeth y dydd i eistedd i lawr a thrafod yn gyfrifol sut mae dod â'r anghydfod i ben er lles y ddwy ochr a ni fel cymdeithas. Mewn unrhyw system ddemocrataidd dyna ddylai'r drefn fod ac mae gwyro oddi ar hynny yn pellhau pobl oddi wrth ei gilydd gan greu anniddigrwydd a drwgdeimlad diangen sydd yn llesteirio unrhyw ddatrysiad yn y pen draw. Mae'n hanfodol bwysig bod pawb yn parchu safbwyntiau ei gilydd a'r unig ffordd gyfrifol o wneud hynny er lles pawb yw drwy eistedd i lawr gyda'n gilydd yn yr ysbryd gorau posib er mwyn dod i gytundeb er lles pawb.

Er nad yw ein Prifwyl wedi osgoi beirniadaeth dros y misoedd dwytha gawn ni obeithio y daw pawb yn yr ysbryd gorau i gaeau Boduan i fwynhau y cyfoeth o ddiwylliant fydd yn ein disgwyl yno. Dyma ein cyfle i ddangos i'r byd mai trwy gariad a pharch yn ein hymwneud â'n gilydd y daw cyfiawnder yn helaethach i bawb.

# O'r Pen Yma




gan **Angharad Tomos**

Gwelais ryfeddod y dydd o'r blaen. Rydw i wedi cyrraedd yr oedran pan na fedraf ddweud hynny yn aml. Nodwedd arall o'r rhyfeddod oedd fod ganddo gysylltiad Wesleaidd. Mae hynny yn digwydd llai aml byth. A minnau dros fy nhrigain, rôn i wedi meddwl mod i wedi gweld popeth yng Nghymru (a Lloegr bron iawn) oedd a wnelo fo â John Wesley. Dipyn o Wesla wyllt oedd fy mam, ac os oedd unrhyw gapel neu dŷ neu grair oedd yn gysylltiedig â'r Dyn Mawr ei hun, rhaid oedd gwneud pererindod i'w weld. Roedd hi fel defod Babyddol.

I Nantglyn yr es i, yn Sir Ddinbych, lle yr addawodd fy ffrind y gwelwn beth go hynod. Cyfeiriodd fi at hen, hen ywen ar y chwith wrth ddod at yr eglwys, a deud wrthyf am edrych arni. A wir i chi, tu mewn i'r goeden, gwelais risiau, canllaw haearn, a phulpud yn y top! Er hynny, roedd y goeden yn dal yn fyw. Tu ôl i'r pulpud, yr oedd lle bach i'r pregethwr eistedd, yn union fel mewn capel. Adwaenir yr ywen fel 'Y Goeden Bulpud' ac rwy'n dal i geisio canfod ei hanes. Yn ôl y sôn bu John Wesley yn pregethu o'r fan hon. Pan gamais i at y pulpud, ni allai fy ffrind fy ngweld, gan gymaint y tyfodd y goeden mewn 250 mlynedd. Yn ôl y sôn, mae'n dyddio'n ôl i'r G17.

Pam pulpud? Oedd yr eglwys yn rhy fach i ddal cynulliad helaeth, a bod yr offeiriad yn pregethu o'r goeden? O ystyried maint y pentref, anodd oedd credu hynny. Ai ar gyfer Anghydffurfwyr ydoedd? Go brin, a'r goeden ar dir eglwysig. Dwi'n dal i ddyfalu. Ond dwi'n falch mod i wedi cael gweld y goeden – a'r pulpud oddi mewn iddi.



Yn ddiweddar, bûm yn darllen hanes y Methodistiaid cynnar, John a Charles Wesley a Howell Harris yntau, a synnu at yr erledigaeth y bu'n rhaid iddynt ei oddef. Weithiau, roedd pobl mor ddig tuag atynt fel y byddent yn eu pledu efo cerrig, a doedd o ddim yn eithriad iddynt roi y tŷ yr oeddent yn lletya ynddo ar dân! Er gwaethaf hyn, dal ati i ledaenu'r Efengyl a wnaethant.

Wrth ddarllen yr hanesion hyn, ac wrth weld y pulpud yn y goeden, dyma feddwl mor saff a pharchus yw ein haddoli y dyddiau hyn. Does neb yn ein herlid, a dydi fawr o ots gan neb beth a gredwn. Pawb a'i botes ydi hi, ac os ydych chi eisiau mwydro eich pen efo Cristnogaeth, dyna fo. Be ydi'r ots?

Dwi'n falch nad oes neb yn ein herlid, ond dwi'n meddwl weithiau ydyn ni wedi mynd yn rhy gyfforddus yn ein rhigolau. Petai rhywun yn ein herio, pa mor bell fydden ni'n fodlon mynd? Fydden ni'n barod i sefyll dros ein cred, a dringo coeden fel y gwnaeth Sacheus gynt, neu fel y gwnaeth John Wesley ym mynwent Nantglyn?



# O'R LLAN

gan y **Canon Idris Thomas**

Ar draws y gorwel lle'r â'r haul i lawr
Dros rynnau eithaf y caregog dir,
Mae eglwys Llanddeiniolen.

Anfarwolwyd eglwys a mynwent Llanddeiniolen yma yn Arfon gan yr Athro W. J. Gruffydd. Llinellau o'i gerdd anfarwol 'Ywen Llanddeiniolen' yw'r rhain wrth gwrs. Mae'r ywen enwog, fel bedd y bardd ei hun, gerllaw yr addoldy. Ym mynwent yr eglwys mae wyth ywen yn tyfu gyda phedair ohonynt yn hynafol iawn.

Ysgogwyd hyn o lith gennyf ar ôl dychwelyd adref wedi imi fod yn gwasanaethu yn angladd Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel lle yr ymgasglodd tyrfa fawr. Mangre ysbrydol Brian oedd Eglwys hynafol Llanddeiniolen ac fe olygai lawer iddo. Gwnaeth gymaint yno gydol y blynyddoedd. Rwyf wedi gwasanaethu tipyn yn Eglwys Llanddeiniolen ac yn y fynwent gerllaw, a gwnaf o hyd. Mae rhai cysylltiadau teuluol gennyf yn gorwedd yn naear y Llan a diolchaf i Meirion fy mrawd ieuengaf am ei wybodaeth drylwyr am y fynwent. Bob tro, ar ôl mynd trwy giât yr addoldy, byddaf yn oedi a syllu gyda rhyfeddod ar Ywen Llanddeiniolen. Yn ôl traddodiad mae'r ywen hon wedi tyfu yma ers dechreuad Cristnogaeth. Gerllaw y coed yw yma, yn ôl y sôn, y sefydlodd Deiniol Sant, nawdd sant Esgobaeth Bangor, ei gell Gristnogol.

O blith coed ein gwlad, yr ywen sy'n tyfu arafaf a hwyaf. Coeden dywyll brudd yn tyfu mewn sawl mynwent ydy hi. Dywedir bod y derwyddon slawer dydd yn plannu coed mewn mannau lle roeddent yn addoli. Caniatawyd i'r ywen dyfu mewn lleoedd o'r fath a bwrw eu cysgod i'r fath raddau fel na allai dim byd arall dyfu o'u cwmpas. Mae boncyff ywen Llanddeiniolen yn edrych fel grŵp o bileri, gyda'r canghennau'n tyfu'n isel sef ychydig droedfeddi o'r llawr, ac mae gan y canghennau frigau deiliog sydd yn bwrw cysgod tywyll. Hwyrach mai tywyllwch y dail a roddodd syniad i bobl fod yr ywen yn goeden addas i fynwentydd ein gwlad. Yn wir, o bellter, mae'r ywen yn edrych yn ddu. Dywedir hefyd fod y canghennau'n wenwynig i anifeiliaid fferm ac mai dyna pam mai mewn mynwentydd a gerddi caeedig y ceir hwy.

Ble bynnag yr awn ni yma yng Nghymru, prin y byddwn ni allan o olwg coed. Dyma'r organebau byw hynaf ar y ddaear ac mae oes rhai coed yn llawer hwy na'n hoes ni.

Cofiaf gwestiwn pan oeddwn yn blentyn yn arholiad Maes Llafur Gŵyl Gorawl Eglwysi Bro Eryri sef "Enwch ddeg o goed sydd yn y Beibl." Mae rhestr y coed a'r prennau yn y Beibl yn niferus a dyma enwi ond rhai ohonynt i gofio am yr Ŵyl arbennig honno yn Eryri gynt.

- Cedrwydd – defnyddiodd Solomon ef i adeiladu'r deml a'i dŷ ei hun; defnyddid ef hefyd i wneud hwylbrennau a chistiau.
- Collen – pren cnau fel y'i gelwid gyda'i ddail yn beraroglus a'i gnau yn ardderchog.
- Derwen – un o'r coed mwyaf cyffredin ym Mhalestina ac mae'n arwydd o gadernid.
- Ffigysbren – un o'r prif goed ffrwythau ym Mhalestina. Mae'n arwyddlun o heddwch a llwyddiant a defnyddir y goeden gan yr Iesu yn ei ddamhegion.
- Helygen – pren sy'n tyfu gerllaw dyfroedd.
- Olewydden – pren bythwyrdd, adnabyddus iawn ym Mhalestina, sydd yn cymryd amser hir i dyfu. Yn y Beibl rhestrir defnydd yr olew at wahanol ddibenion megis ymborth, yn y seremonïau a'r offrymau, i eneinio gwahanol rannau o'r corff yn enwedig y pen, ac i eneinio'r claf a'r marw.

Dyma gerdd o *C'narfon a cherddi eraill* gan Selwyn Griffith (o Fethel, nepell o Eglwys Llanddeiniolen):

Roedd hi'n noeth
Dan barlys y GAEAF,
cyn i'r GWANWYN swil
sleifio
i wisgo amdani.

A phan ddaeth yr HAF,
Gwelais hi'n swancio'n yr haul,
A'r miloedd dail
yn dawnsio'n fywiog yn eu gwyrdd
ar lwyfan ei brigau.

Daeth HYDREF a'i garnifal
i'w gwisgo mewn siaced fraith,
cyn i'r gwynt sbeitlyd ei rhwygo
a sgubo'r clytiau crin
i fedd
y GAEAF.

Cyhoeddodd R.Glyndwr Williams lyfr gyda'r teitl *Y Tair Coeden ac Ysgrifau eraill* ac ynddo soniodd am "dair coeden ac un person yn eu clymu ynghyd – trwy ei grud, ei gwch, a'i groes".



# RHWNG MÔR A MYNYDD

## *gan y Parchedig Euron Hughes*

Wrth dyfu i fyny yn Seion, Llanddeiniolen, roeddwn yn ymwybodol fy mod yn byw ar lain o dir rhwng y môr a'r mynyddoedd. Yn ystod misoedd yr Haf byddai ymwelwyr yn cerdded ar hyd y lôn a rhyfeddu at yr olygfa o'r Wyddfa a'i chriw, ac yn aml byddai'r sgwrs yn datblygu fel hyn:

"You live in a wonderful place! That view is spectacular and breathtaking!"

"Yeah...the view's alright...but the mountains get in the way."

Ymateb doniol ac eithaf ysgafn i ddweud wrth yr ymwelwyr, oedd yn aml dan draed braidd. Ond i mi roedd elfen o wirionedd yn yr ateb hefyd, oherwydd doedd yna ddim rhamant yn y mynyddoedd i mi, roedd yn well gen i'r olygfa i'r gorllewin sef yr olygfa am Fae Caernarfon a'r môr.

Rhwng mynydd a môr. Ac o'r ddau roedd y môr yn apelio llawer mwy ataf i. Ac mae'n dal i fod felly. Meddyliwch am yr holl gyfeiriadau at fynyddoedd a moroedd sydd yn y Beibl, a pha mor bwysig oedd y ddau. Ac mae'r pwysigrwydd yn dal i fodoli yn ein byd ni heddiw. Y ddau yn dal i gyfareddu a hudo pobol, yn dal i herio pobol, ac yn dal yn gallu bod yn greulon a didostur i bobol. Ac eto rydym yn dal yn eu hedmygu ac yn ymateb i'w her.

Faint o fynyddoedd o'r Beibl allwch eu henwi?

Horeb, Siniai, Ararat, Tabor, Pisgah, Nebo...

Faint o foroedd?

Saith yw'r ateb traddodiadol ond a allwch eu henwi nhw?

Mae'r ddau yn bwysig yn y Beibl; yn bwysig yn hanesyddol, yn hanes yr Iesu a hefyd yn symbolaidd o fawredd Duw.

O uchelder mynyddoedd gallwn weld yn bell, a gweld y cyfarwydd mewn golau newydd. O fynydd Nebo y gwelodd Moses wlad yr addewid... ac yn rhyfedd iawn pan fyddaf yn teithio am adra o Sir Feirionnydd ar hyd yr A487, wrth y troad am Nebo a Nasareth y byddaf yn gweld Bae Caernarfon ac yn teimlo fy mod i bron iawn adra.

Mae mynyddoedd felly yn arwydd o gadernid Duw. Ac mae bodau dynol yn ceisio dringo eu copaon a'u huchelfannau i geisio dod yn nes at eu creawdwr. Mae esgyn yn ddaearyddol a chorfforol yn symbolaidd o'r awch am oleuni ac ysgogiad, os nad profiad o esgyniad ysbrydol.

### Y FFORDD I'R COPA

Flynyddoedd yn ôl tra roeddwn yn dal i fyw efo fy rhieni daeth cnoc ar y drws, ac yn sefyll yno roedd dau o ddynion ifanc oddeutu 18 oed, mewn crysau a thei trwsiadus a bathodynnau efo'u henwau gyda'r rhagddodiad "Elder". Mormoniaid oeddynt. A chyn hyd yn oed dweud "Helo", gofynnodd un ohonynt mewn acen Americanaidd drwchus "Do you believe there's only true path to know GOD?"

Ar ôl eiliad neu ddau camais allan atynt a chau'r drws, a'u gwahodd i fy nilyn i'r ardd gefn i weld yr olygfa o gadernid Eryri. Atebais ei gwestiwn:

"Do you see that? That is the Wyddfa, the highest mountain in Wales. There are many paths to the summit, each has their beauty and their own challenges but ultimately they all reach the same destination – the summit. I believe the same to be true with God the creator, God the Father."

Dyma'r ddau yn edrych ar ei gilydd ac atebodd un gydag argyhoeddiad a sicrwydd di-sigl; "Gee...that's interesting, but you are wrong."

Wrth gael panad yn y tŷ eglurodd y ddau eu bod wedi bod yn cynilo arian i ddod drosodd o'r UDA i genhadu fel hyn ers roeddynt yn rhyw 7 oed. Fe'm trawodd i faint o argyhoeddiad oedd gan yr hogia ifanc yma, i deithio'n bell dros y môr o'u cartrefi i genhadu eu ffydd...a meddyliais tydi'r bobol yma ddim wedi cael cyfle i dyfu i fyny a phrofi posibiliadau llwybrau eraill, er bod yn rhaid imi eu hedmygu nhw am eu dycnwch a'u hargyhoeddiad.

### PERYGLON Y MÔR

Bu'r môr yn y newyddion yn aml iawn yn ddiweddar. Cafodd trychineb y llong danfor a ddinistriwyd ar ei ffordd i lawr i ymweld â'r Titanic lawer iawn o sylw ac mae colli bywyd yn y fath ffordd yn hynod o drist. Ond hefyd collodd nifer fwy o bobol a phlant eu bywydau ar long ar Fôr y Canoldir; ffoaduriaid a oedd yn ceisio "byd sydd well i fyw". Ond ni chafodd y trueiniaid yma hanner cymaint o sylw gan y cyfryngau ag a gafodd y bobol ar y llong danfor. Ydi'r môr yn adlewyrchu rhagfarnau cymdeithas orllewinol? Man chwarae mawreddog i'r cyfoethog a mynwent i'r tlawd?

Defnyddiodd yr Iesu fynydd fel lleoliad ar gyfer ei bregeth fawr sydd yn ein herio ni i dyfu i fod yn well nag ydym ni. Fe dawelodd Iesu y storm tra ar y môr ac fe alwodd ddisgyblion i fod yn bysgotwyr dynion. Mae'r Iesu felly yn defnyddio'r ddau, y mynydd a'r môr, i'n helpu ni i ddeall dau beth, yn gyntaf y dylem ymdrechu i wella ein hunain a'n cymdeithas fel y byddwn yn ceisio dringo mynyddoedd ein hunain, beth bynnag yw ein rhwystr. Ac yn ail, pan fo stormydd bywyd yn taro dylem ymddiried yn ei rym a'i gariad. Ni ein hunain yw'r môr, yn corddi ac yn aflonydd, a'r Iesu yw'r un sydd yn gallu ein llonyddu.

### CYSUR A GWERTHFAWROGIAD

Felly pan fydd ymwelwyr o dan draed, yn tagu ein lonydd ac fel morgrug ar hyd yr arfordir, efallai y dylem gofio bod ein Harglwydd hefyd wedi mynd i'r mynydd i gael tawelwch i weddïo a chroesi'r môr i osgoi y dorf. Mae pawb yn chwilio am dawelwch ac am brofiadau o ryw fath. A rhwng y môr a'r mynydd yr ydym i gyd yn trigo.

"Codaf fy llygad tua'r mynyddoedd; o ble y daw cymorth i mi? Daw fy nghymorth oddi wrth yr Arglwydd" (Salm 121)

Ac yn ychwanegol i hyn i gyd, dylem barchu ein hamgylchedd... parchu mawredd y mynyddoedd a thrin y moroedd gyda pharch oherwydd y mae'r ddau yn angenrheidiol i'n bywyd ac ar gyfer ein dyfodol. I ni beidio eu trin yn ysgafn ond fel rhan bwysig o'r greadigaeth a gwaith llaw ein Duw. Boed i'n traed droedio llwybrau ein hamgylchedd mewn parch a gwerthfawrogiad ac i sicrhau cyfle i'n disgynyddion ddarganfod eu mawredd drostynt eu hunain.





# Wrth fynd heibio

gan **William H. Owen**



A dyma'r Ŵyl fawr wedi cyrraedd Pen Llŷn: Eisteddfod Genedlaethol mae rhai yn dal i'w galw. Os oes gennych unrhyw sêl drosti gwyddoch ers tro fod tocynnau dwy o nosweithiau'r Pafiliwn Mawr-llai-nag-oedd wedi gwerthu mewn dim o dro. Dechreuodd rhai gwyno'n syth mai dyna oedd rhai wedi ei ragweld wrth ddarparu pabell gyda llai o seddau.

Serch hynny, ni chlywsom fod mynd o'r fath wedi bod ar docynnau'r nos Sul gyntaf. Mae'r Sanhedrin Eisteddfodol, fel y galwai'r diweddar Gwilym Owen y swyddogion wrth y llyw, yn dal yn driw i gynnig Cymanfa Ganu ar y nos Sul agoriadol. Mae eleni fymryn gwahanol. Gyda'r emynau bydd Côr y Gymanfa yn canu cyfres o drefniannau newydd o rai o ganeuon enwocaf Leila Megàne, y mezzo-soprano o'r fro a fu'n teithio Ewrop a'r Unol Daleithiau yn diddanu cynulleidfaoedd.

Nid emynau a glywn ni ganddynt ond y caneuon yr oedd hi wedi eu poblogeiddio – Gwlad y Delyn, Bwthyn Bach To Gwellt, Pistyll y Llan, Dafydd y Garreg Wen a'r Nefoedd, cân y byddech yn ei disgwyl mewn Cymanfa?! Prin y bydd llawer yn Llŷn nac unrhyw le arall yn cofio'r gantores yn ei hanterth gan iddi farw yn 1960. Amheus, o'r herwydd, yw y bydd ei henw'n ddigon ynddo'i hun i gipio cyfran fawr o'r mil o docynnau sydd ar gael ar gyfer y Pafiliwn.

Gyda'r awch am ganu cynulleidfaol yn gwegian ers tro mae'n amlwg fod yn rhaid i'r Eisteddfod apelio mewn rhyw ffordd arall os ydynt am ddal i gynnal Cymanfa Ganu. Synhwyraf mai dyna sy'n digwydd yma drwy ddod â rhai o hen unawdau poblogaidd y Gymru fu i'r llwyfan. Rhaid dweud fod y gefnogaeth i Gymanfa'r Eisteddfod wedi para'n hynod dda, er nad yw'r camerâu byth yn canolbwyntio ar unrhyw seddau gwag. Ond gan wybod mor fregus yw hi ar 'yr achos', hyd yn oed yn hen wlad Llŷn lle mae'r Gymraeg yn gryfach na sawl ardal, mae'r cwestiwn yn codi pa mor hir y pery nos Sul gyntaf yr Eisteddfod i fod yn noson y Gymanfa?

Ai twyllo ein hunain a wnawn fod pethau fel hyn yn mynd i bara? Mae seilwaith y canu cynulleidfaol wedi breuo wrth i gapel ar ôl capel – ac eglwys – gau, a chyn lleied yn mynychu lle o addoliad. Nid oes gennyf wybodaeth drylwyr am y dirywiad yn Llŷn ond a fyddai'n synhwyrol dweud fod o leiaf hanner addoldai'r ardal wedi cau er pan ymwelodd y Genedlaethol â Phwllheli yn 1955?


Mae un o'r capeli mwyaf wedi dod ar werth yn ddiweddar, hen gapel a gysylltid â Tom Nefyn oedd yn enw mor amlwg ar un cyfnod. Yn Edern yr oedd dyblu a threblu'r gân pan oedd y gymanfa yn ei bri a'r lle yn llawn. Caeodd yr adeilad ers tro. Nid oedd neb am gyfarfod yno a'r canlyniad yw gofyn £50,000 am yr adeilad rhestredig.

Yng ngoleuni'r encilio dinistriol mae'n rhaid gofyn a oes dyfodol i Gymanfa nos Sul yr Eisteddfod. Yn wir, a oes bosib cynnal cyfres *Dechrau Canu Dechrau Canmol* am lawer iawn rhagor? Onid lluchio llwch i'n llygaid ein hunain a wnawn wrth geisio rhoi cynhaliaeth i orffennol sydd wedi'n gadael? Yn fuan iawn chawn ni fawr o ddyblu a threblu'r gytgan ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.



# TUDALEN Y PLANT





Dyma ddau dŷ. Mae'r ddau yng nghanol glaw a llifogydd. Mae un tŷ wedi ei adeiladu'n gadarn ar graig ond does gan y llall ddim sylfaen gadarn. Fedr yr un sydd heb sylfaen gadarn ddim gwrthsefyll y storm a bydd yn syrthio. Bydd yn debyg i gastell tywod.

Dywedodd Iesu Grist fod pobl sy'n clywed beth sydd ganddo i'w ddweud ond heb wneud beth mae yn ei ofyn yn debyg i'r tŷ sydd heb sylfaen. Ond os gwnawn ni garu ein gilydd fel mae Iesu yn dweud wrthym am wneud, bydd gennym ni sylfaen gadarn i'n bywydau. (Luc 6:46-49)

## Beth yw'r 10 gwahaniaeth rhwng y ddau lun o'r castell tywod?

